OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 1066 (Cy. 105) (C. 46)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 3) 2014

*Gwnaed - - - - 16 Ebrill 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 33 o Fesur Addysg (Cymru) 2011(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 3) 2014.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Cychwyn

**2.** Daw adrannau 10 i 15 a 17 i 21 o Fesur Addysg (Cymru) 2011 i rym ar 28 Ebrill 2014.

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau,
un o Weinidogion Cymru

16 Ebrill 2014

(**1**) 2011 mccc 7.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dyma'r trydydd gorchymyn cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Fesur Addysg (Cymru) 2011 ("Mesur 2011"). Mae'r Gorchymyn yn dwyn i rym ar 28 Ebrill 2014 Bennod 1 o Ran 2 o Fesur 2011. Mae Pennod 1 o Ran 2 o Fesur 2011 yn gwneud darpariaeth ynghylch ffedereiddio ysgolion a gynhelir.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 1 i 9 | 16 Tachwedd 2012 | 2012/2656 (Cy.288) (C.106) |
| Adrannau 22 i 25 | 22 Awst 2013 | 2013/2090 (Cy.205) (C.87) |